CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
3 Mawrth 2021, Trwy Fideo 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng, N Jones (Cadeirio,)E Williams, L Roberts, D Gwyn, A Mummery, O Evans, M Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng. D.I. Roberts, S. Hughes a R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd Cyng N. Jones yn absenoldeb y Cadeirydd.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03:02:2021. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A. Mummery yn cynnig a Cyng D. Gwyn yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Twll ger y lôn rhwng Eglwys Penmynydd a'r Groeslon** – L. Roberts am edrych i mewn i ble yn union y mae'r twll. A. Mummery am adrodd i'r Cyngor Sir am y twll ger Tyn Coed Bach. A. Mumery hefyd am holi ynglyn ag arwyddion trymder cerbydau.
4.2	**Gor Dyfiant ar Lôn Garnedd Ddu -** Swyddog o'r Cyngor Sir wedi ymateb i ddweud eu bod yn edrych mewn i'r mater.
4.3	**Elusendai Penmynydd** - J. Roberts wedi ymateb trwy ebost i'r Cadeirydd. Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned enwebu 4 person i ymuno a'r Pwyllgor. Enwebwyd D.I. Roberts, E. Williams, A. Mummery ac O. Evans. Y Clerc i hysbysebu Mr J. Roberts o'r enwau.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	Cais Cynllunio Tyn Mynydd wedi'i wrthod.
5.2	Cais Cynllunio Fferm Star ddim angen caniatad cynllunio.
6.0	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Adroddiad Panel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - er gwybodaeth.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**Cyflog y Clerc - £580.61 (Ionawr - Mawrth 2021)**
8	**MATERION ERAILL**

8.1	**Swydd Ddisgrifiad y Clerc -** A. Le Cras yn derbyn y swydd Clerc yn barhaol ac yn arwyddo'r gytundeb.
8.2	**Maes Chwarae Star -** A. Mummery wedi holi yn Co-op am eu grantiau cymunedol. Cais wedi'I wneud am £250. Nodwyd y bydd ceisiadau'n agor am grantiau'r Ymddiriedolaeth trwy'r Cyngor Sir ym mis Ebrill a Gorffennaf.
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Pont dros yr A55
9.2	Maes Chwarae Star.
9.3	Biniau ychwanegol a Chodi Sbwriel
	Llofnod Cadeirydd 06.04.21